



Cynorthwydd Rheoli Adnoddau Dynol – Dwyieithog (Cymraeg/Saesneg)

**Parhaol - 14.8 awr yr wythnos (potensial i gynyddu oriau mewn camau
hyd at 37 awr yr wythnos erbyn Mis Mawrth 2020)**

Pencadlys, Parc Busnes Llanelwy

Gradd 05 GTAGC £21,693 - £23,111 pro-rata y flwyddyn

Darparu cefnogaeth gynhwysfawr a chyfrinachol i'r Adran Adnoddau Dynol, gwneud yn siŵr bod yr holl swyddogaethau Adnoddau Dynol yn cael eu prosesu a'u gweinyddu'n effeithiol; gan gynnwys recriwtio a rheoli presenoldeb.

CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

Gofynion Hanfodol

- Sgiliau gwrando a siarad rhagorol drwy gyfrwng y Gymraeg (gyfystyr â Safonau GTAGC Lefel 4) Mae Safonau Cymraeg Lefel 4 GTAGC Siarad a Gwrando yn mynnu eich bod yn gallu; cynnal sgwrs anffurfiol yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad gyda rhuglder ac ystod o ddywediadau ond y gall fod angen troi at iaith arall i ateb cwestiynau annisgwyl neu er mwyn esbonio materion cymhleth neu wybodaeth dechnegol. Cyfrannu'n effeithiol i gyfarfodydd neu seminarau o fewn y maes gwaith. Dadlau o blaid neu yn erbyn achos.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol drwy gyfrwng y Saesneg, (yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyfystyr â Sgiliau Hanfodol Lefel 2)
- Sgiliau TG canolradd gan gynnwys gwybodaeth weithredol am becynnau Microsoft
- Sgiliau rhifydded da er mwyn creu adroddiadau ystadegol
- Profiad o ddefnyddio cronfeydd data TGCh a chreu adroddiadau ystadegol
- Y gallu i fewnbynnu data'n gywir a theipio o leiaf 35 gair y funud
- Tystiolaeth o allu rhoi sylw i fanylder
- Sgiliau trefnu da gyda'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun a blaenoriaethu tasgau i gwblhau gwaith mewn pryd
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm
- NVQ Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol mewn maes perthnasol (e.e. Gweinyddiaeth Fusnes, CIPD) neu brofiad cyfatebol a pherthnasol gyda thystiolaeth
- Dealltwriaeth dda o Amodau Gwasanaeth Llywodraeth Leol a'r Ddeddfwriaeth Cyflogaeth yn gyffredinol

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, 15 Chwefror 2019

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk

*Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.*

